# CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB

Cyfarfod o'r Cyngor: Dydd Llun, 18 Medi 2017, Siop yr Efail.

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

**Presennol:** Martin Roberts (yn y gadair), Brian FitzGerald, Pauline Desch, Andy Wagstaff

**Ymddiheuriadau:** Mared Morris, Carys Love

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan, Brian FitzGerald eilio gan Martin K Roberts.

## 2. Materion yn codi

Biniau cŵn: wedi cael sgwrs efo Vivian Williams am hyn. Mae 3 bin ci yn Llanddaniel yng nghanol y pentref, a 2 fin stryd, ac 1 bin cŵn ychwanegol yn Bryn Celli Ddu. O edrych ar yr ystadegau, roedd yn dweud bod yr un yn y layby ger Kelly's Farm yn wastraff ac ddim yn cael llawer o ddefnydd, felly ei awgrym o oedd ail-leoli dau o'r biniau a symud y biniau ysbwriel hefyd. Ond, mae angen cael gwybod gennym ni i ble y dylai hwn fynd.
Awgrymu cael 1 bin stryd wrth ymyl Stad Plas Hen neu ar lôn Bodlew.

Awgrymu symud un bin o'r layby i'r ochr arall i'r lôn. Gofyn am fap o leoliadau y biniau i gyd.

Golau stryd ychwanegol. Os ydan ni eisiau golau stryd ychwanegol, angen i ni gyllido am y golau ond mi wnaiff y Cyngor gymryd cyfrifoldeb. Golau yn costio c. £800.

## 3. Cyflwyniad gan SP Energy Networks

Mark Sobczak a Paul Jeffs. Dogfennau wedi eu dosbarthu.

## 4. Cynllunio

### Ceisiadau Cynllunio

**21C177/AD** Cais i leoli arwydd heb ei oleuo ar dir gyferbyn y Swyddfa Post. Brian FitzGerald yn datgan diddordeb gan ei fod yn ei enw. Cais ar ran y Cyngor Cymuned.
**21C170C** Ardal wyneb caled amaethyddol Bryn Celli Ddu. Ar gyfer y fferm. Eisiau buarth ar gyfer y fferm. Efallai ar gyfer newid defnydd? Ond os am roi adeilad ar hwn angen cael caniatâd pellach. Dim gwrthwynebu.
**21C28A/DEL** Tynnu amod caniatâd cynllunio, Tir Na Nog. Natur yr amod - rhywun dim ond rhywun o Wynedd sydd yn cael byw yno. Cynlluniau yn rai gwreiddiol o 1987? Dim gwrthwynebiad.
**21C80C** Addasu ac ehangu, Carreg Wen. Estyniad a mynedfa newydd. Tŷ ddim i'w weld, un llawr, to fflat. Dim gwrthwynebiad.

### Penderfyniadau Cynllunio

**21C160F/DEL** Cais i dynnu amodau - GWRTHODWYD Hwn wedi dod dros yr haf. Eisiau tynnu amod ynghylch cael adroddiad ar gyfer yr adeilad. Wedi gwneud y gwaith.
**21C160K/LB/DIS** Cais i ryddhau amodau, Llwyn Onn. CANIATÂD.
**21C58H** Cais i godi 10 uned ychwanegol yn Parc Eurach. GWRTHODWYD
**21LPA727A/CC** Ysgol Parc y Bont. CANIATÂD.
**21C171A/ENF** Cais ôl weithredol i gadw 2 fynedfa, Bryn Celli Ddu. CANIATÂD.
**21C166A** Cais amlinellol i godi annedd. Llain yr Haf. GWRTHODWYD.
**21C58T/ENF/LUC** Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon, 13 Parc Eurach. CANIATÂD.
**21C58Q/ENF/LUC** Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon, 14 Parc Eurach. CANIATÂD.
**21C58R/ENF/LUC** Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon, 19 Parc Eurach. CANIATÂD.
**21C170B** Troi ysgubor yn annedd, Bryn Celli Ddu. CANIATÂD.
**21C174** Dymchwel modurdy a chodi modurdy a sialet, Llecheiddior. CANIATÂD.
**21C22B** Newid defnydd adeilad allanol, Llwyn Ogan, Lôn Pont Ronwy. CANIATÂD.
**21C175** Addasu gweithdy yn ystafell wely gyda balconi. Hen Fuarth. CANIATÂD.

## 5. Llythyrau i'w trafod

**Horizon Nuclear Power** Llythyr yn egluro lle mae'r hysbysiadau cyhoeddus.
**Mrs Margaret Clarke** Cais i lenwi sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Derbyn a chychwyn y broses cyfethol.
**Llythyrau Raymond Lloyd** Sawl llythyr yn trafod goryrru trwy'r pentref. Wedi cysylltu â Rhun ab Iorwerth. Y Cyngor Sir wedi gwneud asesiad yn y pentref a'r rhan fwyaf yn gyrru ar y cyflymder cywir. Dim digon o oryrru felly ddim am roi'r fan heddlu yno ddim mwy. Mewn un llythyr cynnig bod yr adran Priffyrdd yn rhoi'r arwydd fflachio ond dim cyllid i roi un parhaol yno. Am drafod efo adrannau eraill a'r heddlu. Llythyr wedyn yn dweud bod PCSOs yr ardal yn dod i mewn i gadw golwg.
Werth gofyn am yr adroddiad? Codi hyn eto efo Rhun ab Iorwerth?
Ateb Raymond Lloyd i ddweud bod gennym ni ein pryderon ein hunain ac wedi cymryd rhifau ceir a'i basio at yr heddlu, a gofyn i bobl adrodd i'r heddlu am hyn. Wedi cael sawl cwyn gan aelodau eraill o'r gymuned.
Cysylltu efo Rhun ab Iorwerth – gofyn hefyd am yr adroddiad.

## 6. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd

Dim cyfarfod llywodraethwyr heb fod.

## 7. Adroddiad Cynghorydd Sirol

Dim cynghorydd yn bresennol.

## 8. Materion Ariannol

### Crynodeb

**Cyfrif 81114670**

| | | |
|---|---|---|
| Cariwyd drosodd | | 11756.23 |
| Gwariant | | -12,879.42 |
| Incwm | | 5382.34 |
| | Balans | 4259.15 |

| | |
|---|---|
| Balans ar datganiad | 6304.28 |

**Cyfrif 51120905**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Wrth Gefn - yn y banc | 1618.82 |

**Incwm y mis hwn**

| | |
|---|---|
| Taliad am gladdedigaeth | 125.00 |
| Ail daliad yr Archeb | 2616.67 |

**Gwariant y mis hwn (heb glirio)**

| | |
|---|---|
| Taliadau elusennau (i fynd allan)** | 70.00 |
| Playsafety Ltd - Archwiliad | 88.20 |
| Cais Cynllunio Hysbysfwrdd | 190.00 |
| Hywel Hughes - Cyfieithu Gorffennaf | 52.50 |
| Ynys Trading: £680.40 + £660.72 | 1341.12 |
| Trigolion - Siop yr Efail | 48.00 |
| Cyngor Sir – Rhent Cae Chwarae | 68.31 |
| | 1858.13 |

***Awyr Las, Eisteddfod Môn*

Trafod y cyfrifon yn fanwl. Cais wedi dod gan Alon Williams ar ran Trigolion – wedi addo cyfrannu £2000 at y gwaith adeiladu gan Trigolion, a Trigolion methu symud ymlaen gyda'r gwaith heb gael y cyfraniad hwn. Ond y cyfrifon yn edrych yn dynn. Ystyried yr hyn sydd eto i fynd allan o'r cyfrifon. Angen cofio am yr hysbysfwrdd a'r posteri baw ci.

Andy am gael gair efo Alon i egluro'r sefyllfa. Nodi nad ydan ni yn gwrthod ond problem llif arian.

Un opsiwn fyddai defnyddio'r arian wrth gefn a'i dalu yn ôl pan fydd y VAT wedi cael ei ad-dalu. Angen cael y mandad ar gyfer y cyfrif wrth gefn.

Ar gyfer y flwyddyn sydd yn dod, angen sicrhau bod digon o arian i fedru sicrhau'r £2k i Trigolion.

Yn y 2 flynedd nesaf angen edrych ar y matiau yn y cae chwarae. MR angen edrych ar grantiau. Angen edrych ar grant Shell eleni?

BF werth edrych ar SP Energy Network ac edrych ar ofyn am gyfraniad. Clerc i ysgrifennu atynt.

Audit – sawl qualifying point ond mae o dan reolaeth.

## 9. Unrhyw fater arall

Angen gwneud asesiad risg.

AW – awgrymu Cyngor Cymuned yn cwrdd i edrych ar yr eiddo a'r lleoliad. Clerc i drefnu dros ebost. Edrych ar yr asesiad risg yr un pryd.

Llwybrau. Wedi cael cwyn ym mis Mehefin nad oedd y gwaith wedi ei wneud, ac wedi cysylltu â Mark Evans ac wedi cytuno gwneud y gwaith. Wedi cael cwyn eto heddiw.

AW – byddai'n well cael ebost yn dweud pryd ei fod yn bwriadu torri ac wedyn siecio bod y gwaith wedi ei wneud.
PD – wedi cael problem gyda Mark Evans yn y gorffennol.
Nodi bod Môn CF wedi gwneud gwaith da iawn a chwmni yn cefnogi pobl yn ceisio cael gwaith. Dim trafferth gyda nhw. Proffesiynol iawn.

Baw ci. Oedi gyda'r posteri – wedi sotio'r bracedau ac wedi cael cyflenwr. Wedi dod o hyd i argraffwr a chyfle i wneud cais am gyllid PACT, ond oedi dros y haf oherwydd roedd y PCSOs yn brysur iawn neu i ffwrdd. Cais i mewn am hwn, Wendy yn hyderus a gobeithio clywed yn fuan. Y dyfynbris yn dal yn ddilys. Unwaith y bydd popeth wedi ei orffen bydd yn symud yn gyflym.

Ebost efo dyddiadau'r cyfarfodydd i ddod.

Arwyddwyd : ______________________

Dyddiad: 17/10/17.